**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.**

**This document is available in Welsh as well as English.**

Heddlu • Police
DYFED POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Adroddiad Blynyddol 2025–2026



## Cyflwyniad

Mae’r flwyddyn adrodd hon (2025-26) yn cofnodi ein cynnydd yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2024-2028.

Cyflwynwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i atgyfnerthu ein hymrwymiad i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ar draws pob nodwedd warchodedig.

Mae’r cynllun hwn yn canolbwyntio ar bedwar amcan strategol:

1. Cynyddu amrywiaeth y gweithlu a grwpiau gwirfoddol er mwyn bod yn gwbl gynrychiolіadol o’r cymunedau rydym ni’n eu gwasanaethu. Canolbwyntio ar recriwtio, cadw a datblygu.
2. Mynd i’r afael â gwahaniaethau ar sail hil o fewn Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) a’u dileu drwy weithredu polisïau ac arferion sy’n hyrwyddo cydraddoldeb hil.
3. Cryfhau ein cydberthnasau â’n cymunedau drwy blismona cymunedol rhagweithiol a gweithgareddau ymgysylltu.
4. Hyrwyddo diwylliant sy’n gynhwysol a chefnogol, gan gynnwys y rheini â nodweddion a ddiogelir ac sy’n gwrthwynebu ymddygiad hiliol, casineb at fenywod neu ymddygiad homoffobig.

Mae’r adroddiad yn cyfuno’r cynnydd a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh.

## Amcan 1

Cynyddu amrywiaeth y gweithlu a grwpiau gwirfoddol er mwyn bod yn gwbl gynrychioliadol o'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu. Canolbwyntio ar recriwtio, cadw a datblygu.

Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?

- Cynyddu amrywiaeth y gweithlu a grwpiau gwirfoddol drwy osod targedau clir ar gyfer y gyfran a gaiff ei chynrychioli gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy symud ymlaen yn weithredol â'r Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol;
- Nodi a chael gwared ar rwystrau gan alluogi pawb i fod yn gymwys i ymuno â'r sefydliad a'n grwpiau gwirfoddol;
- Cynyddu rhaglenni datblygu mentoriaeth i gefnogi dilyniant gyrfa.

Sut yr ydym ni'n monitro?

| Ffocws | Y Diweddaraf |
|---|---|
| Adolygu'r ymgyrchoedd recriwtio | Caiff data ar gyfer recriwtio eu monitro yn y cyfarfod Datblygu Pobl a'r Sefydliad strategol bob chwarter. |
| Cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol yn erbyn ein Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol | Lansiwyd ein Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol yn 2024 a chyhoeddir adroddiad cynnydd yn flynyddol. |
| Adolygu'n rheolaidd y data personol sy'n ymwneud ag amrywiaeth yr ydym ni'n eu casglu ynglŷn â'n Staff, Swyddogion a gwirfoddolwyr i nodi anghydraddoldeb, yn ogystal ag amharodrwydd i ddatgelu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys adolygiad ar draws y strwythur rhengoedd. | Cynhelir adolygiad o'r data amrywiaeth personol bob chwarter yn ein cyfarfod Grŵp Cofleidio Cynrychiolaeth Amrywiol mewnol. Yn hanesyddol, roedd nifer y cofnodion 'dim data' yn uchel, er gwaethaf opsiwn ar wahân i ddatgan 'gwell gennyf beidio â dweud'.<br><br>Ceisiwyd cyfleu i'r gweithlu pa mor bwysig oedd cael y data hyn mewn amrywiol ffyrdd megis;<br>- Cafodd yr erthygl 'Ymgyrch Diogel i Ddweud' ei chynnwys yn y cylchlythyr mewnol (o'r enw 'the informer') ym mis Chwefror a mis Mawrth 2025;<br>- Mae'r adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg yn darparu mewnbwn mewn sesiynau sefydlu Staff a Swyddogion newydd, sesiynau hyfforddi arweinyddiaeth a thrwy gwrs Dosbarth Meistr Adnoddau Dynol.<br><br>Er gwaethaf ein hymdrechion, roedd diffyg data yn parhau i fod yn broblem, felly gofynnwyd i'r set cwestiynau ffurfio rhan o |

| | |
|---|---|
| | broses 'olrhain asedau' y sefydliad. Er nad yw rhannu'r wybodaeth hon yn orfodol, mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn sicr o leihau'r ffigurau 'dim data'.<br><br>Mae offeryn monitro metrigau pobl yn parhau i gael ei ddatblygu – bydd hyn yn rhoi cyfle i olrhain newidiadau a thueddiadau mesuradwy o fewn ein data gweithlu. Mae'r pecyn wedi caniatáu inni ystyried metrigau pwysig (e.e. metrigau i alluogi olrhain a oes nifer anghymesur o unigolion yn gadael y sefydliad sydd wedi cofnodi bod ganddynt nodweddion gwarchodedig). |
| Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn goruchwylio data anghymesuredd yn ein gweithgaredd craffu, ac yn dadansoddi sut mae'r data'n newid dros amser | Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn parhau i gofnodi ethnigrwydd yn ystod eu hymweliadau a nodweddion agored i niwed. Ar gyfer pob diweddariad chwarterol, caiff ethnigrwydd o ffurflenni Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a data'r Heddlu ei gofnodi a'i werthuso.  Diben hyn yw sefydlu a yw'r amodau yn y ddalfa ar gyfer unigolion Prydeinig Gwyn yn gymaradwy â'r amodau ar gyfer unigolion nad ydynt, ac asesu a yw'r ffordd y caiff y ddau grŵp eu trin yn gymharol, a thrwy hynny, nodi unrhyw anghymesuredd.<br><br>Yn ddiweddar, cynhaliodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa adolygiad o Unigolion a gedwir yn y ddalfa o gefndir ethnig leiafrifol (Chwefror 2026), ac ni chafwyd unrhyw arwydd clir o wahaniaethu yn y 19 cofnod a adolygwyd ganddynt.  Roedd yr adolygiad hefyd yn asesu gwahanol agweddau o'r ddalfa, gan gynnwys y defnydd o rym, hawliau a thegwch, eitemau crefyddol, cynrychiolaeth gyfreithiol, oedolion priodol, cyfieithwyr ar y pryd ac ati.<br><br>Gwerthusodd y Panel Sicrhau Ansawdd bwerau Stopio a Chwilio (Mawrth 2025) a Defnyddio Grym (Mai 2025) yr Heddlu, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant, menywod a grwpiau ethnig leiafrifol. Darparwyd adborth yn y Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu - a gynhelir bob chwarter. |

| | |
|---|---|
| | Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel Craffu Cymunedol ym mis Chwefror 2026, a oedd hefyd yn gwerthuso pwerau Stopio a Chwilio a defnyddio grym yr Heddlu. Roedd aelodau'r panel hwn yn adlewyrchu'r gymuned yn well gyda gwahanol oedrannau, ethnigrwydd a rhywedd yn asesu cydymffurfedd yr Heddlu â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE). Bydd y canfyddiadau hynny hefyd yn cael eu rhannu â'r fforwm Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu.<br><br>Mae'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llysoedd yn parhau i ystyried a oes unrhyw faterion anghymesuredd neu bryderon i'w codi yn ystod eu gwaith craffu ar achosion, ac adroddir arnynt ym mhob adroddiad<br><br>Ar 28 Hydref 2025, cynhaliodd y tîm Sicrwydd adolygiad hap samplo o gwynion a gofnodwyd fel Troseddau Casineb ac a ymdriniwyd â hwy y tu allan i atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu. O'r pum achos a adolygwyd, penderfynodd y tîm yr ymdriniwyd â thri ohonynt yn briodol, ac yr ymdriniwyd â dau yn briodol gydag amheuon oherwydd amseroldeb. |

## Uchafbwyntiau Allweddol Amcan 1 – Heddlu Dyfed-Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

**Asesiadau Dyslecsia**
Ar hyn o bryd mae gennym bum Aseswr Anghenion Dyslecsia hyfforddedig i ddarparu cefnogaeth barhaus. Mae cyfanswm o 149 o asesiadau sgrinio cyflym wedi'u cwblhau ers iddo gael ei lansio ym mis Mai 2022. Mae 157 o unigolion wedi ymgysylltu ag Aseswyr Anghenion Dyslecsia, sy'n cynnwys asesiadau yn y gweithle a/neu sgyrsiau ynghylch strategaethau i gynorthwyo a chefnogi unigolion yn y gweithle.

**Datblygu Llwybr Arweinyddiaeth Newydd**
Mae'r llwybr arweinyddiaeth newydd yn cynnwys pecynnau hyfforddi ar gyfer arweinyddiaeth sylfaen, arweinyddiaeth rheng flaen ac arweinyddiaeth rheng ganol; ac mae pob un ohonynt yn cynnwys trafodaethau ar waith sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth. Mae cyrsiau annibynnol ar sgyrsiau beirniadol a dosbarth meistr ar bynciau Adnoddau Dynol hefyd wedi'u datblygu.

| Ffigurau y Mynychwyr | 2024 | 2025 | 2026 |
|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth sylfaen | 47 | 56 | 8 |
| Arweinyddiaeth rheng flaen | 85 | 58 | 22 |
| Arweinyddiaeth rheng ganol | 8 | 18 | 7 |

**Ysbrydoli**
Yn 2025, cafodd y cwrs 'Ysbrydoli' ei dreialu. Cwrs undydd newydd oedd hwn a oedd ar agor i bob aelod o Staff a swyddog o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i helpu i feithrin hyder a datblygiad ochrol. Ym mis Mai 2025, mynychodd 12 o unigolion y cwrs ac ym mis Hydref 2025 mynychodd 10 o unigolion y cwrs. Mae cynlluniau ar waith i gynnal dau gwrs arall yn ystod 2026.

**College Learn (e-ddysgu)**
Mae gan bob swyddog a Staff fynediad i blatfform College Learn. Dan arweiniad y Coleg Plismona, mae'r pecynnau'n cynnwys pynciau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, hyfforddiant ar beidio â chadw'n dawel, aflonyddu rhywiol, rhagfarn ddiarwybod wrth Stopio a Chwilio, deall awtistiaeth a'r cod moeseg.

| E-ddysgu | **Ffigur cwblhau ym mis Mawrth 2026** |
|---|---|
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | 1056 |
| Hyfforddiant ar beidio â chadw'n dawel | 1825 |
| Aflonyddu rhywiol yn y gweithle | 2476 |
| Deall awtistiaeth | 1480 |
| Rhagfarn ddiarwybod wrth Stopio a Chwilio | 1782 |

**Rhwydweithiau cymorth**

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys nifer o rwydweithiau a chymdeithasau cymorth Staff rhad ac am ddim y gallai bob aelod o Staff/pob swyddog neu wirfoddolwr sy'n gweithio i Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymuno â hwy. Mae'r rhwydweithiau'n sicrhau bod yr Heddlu'n hyrwyddo amgylchedd gwaith sy'n cynnwys ac yn gwerthfawrogi pob unigolyn, gan gydnabod a dathlu'r buddion cadarnhaol y mae ein hamrywiaeth yn eu cynnig.

Er bod rhwydweithiau'n wahanol i'w gilydd o ran eu cyfansoddiad, eu cylch gorchwyl a'u gweithgareddau, yn gyffredinol mae pob rhwydwaith yn darparu cymorth yn y gweithle i'w aelodau ac yn ceisio helpu'r sefydliad i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol ei Swyddogion/aelodau Staff. Ymgynghorir ag aelodau rhwydweithiau hefyd ynghylch polisïau a gweithdrefnau perthnasol, fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a thrwy'r broses ymgynghori ffurfiol ar bolisïau.

Gwahoddir rhwydweithiau cymorth Staff i fynd i gyfarfod mewnol y Grŵp Cofleidio Cynrychiolaeth Amrywiol, gan ddwyn materion allweddol i sylw aelodau trwy adrodd am eithriadau a darparu diweddariadau. Ers yr hydref rydym wedi gweithredu system wirio ar-lein fisol ar gyfer arweinwyr rhwydwaith, ynghyd ag aelodau o'r timau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a llesiant. Mae'r system hon yn rhoi'r cyfle iddynt rannu unrhyw lwyddiannau a diweddariadau, yn ogystal â thrafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, neu faterion y gallen nhw (neu eu haelodau) fod yn eu hwynebu. Atgyfnerthir y rhain gan gyfarfod wyneb yn wyneb hirach bob pedwar mis sy'n caniatáu trafodaethau mwy manwl a'r cyfle i gynnal gweithdai syniadau.

Mae pob un yn angerddol dros sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gynhwysol ac yn gynrychiadol o'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu.

Dyma ein rhwydweithiau:

- Rhwydwaith Cefnogi Galluoedd Staff
- Cymdeithas Gristnogol yr Heddlu
- Rhwydwaith Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd
- Rhwydwaith Cefnogi Staff LHDT+
- Rhwydwaith Cefnogi Staff sy'n Gyn-filwyr

## Strategaeth gweithredu cadarnhaol

Fe wnaethom ni lansio ein Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol, sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Mae'n canolbwyntio ar recriwtio, cynnydd a chadw. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cynnydd cyntaf yn 2025 a bydd hyn yn cael ei wneud yn flynyddol.

## Adolygiadau anghymesuredd fetio

Mae'r Panel Adolygu Anghymesuredd Fetio yn cyfarfod i drafod ymgeiswyr fetio y gwrthodwyd caniatâd fetio iddynt, sydd wedi cofnodi nodwedd warchodedig. Diben y panel yw adolygu a fu unrhyw anghymesuredd yn y broses benderfynu. Mae'r panel yn cynnwys Prif Uwch-arolygydd, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â chadeiryddion o rwydweithiau cymorth Staff lle bo'n briodol. Mae'r Panel Adolygu Anghymesuredd Fetio wedi trafod cyfanswm o 13 o ymgeiswyr ers mis Ebrill 2025.

## Y Gymraeg

Mae'r tabl isod yn amlinellu nifer y dysgwyr a fynychodd sesiynau hyfforddi'r Gymraeg rhwng hydref 2025 a dechrau gwanwyn 2026 (tan 31 Mawrth).

**Datblygiad yr Iaith Gymraeg**

Data Cyrsiau Cymraeg Tymor yr Hydref 2025 – Haf 2026 (Mehefin 2026)

| Cwrs | Nifer o gyrsiau Medi - Mehefin 25-26 | Medi– Rhagfyr 2025 | Gwybodaeth am Fynychwyr -2025 | | Ionawr– Mawrth 2026 | Gwybodaeth am Fynychwyr -2026 | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Swyddogion | Staff | | Swyddogion | Staff | |
| Cyflwyniad i'r Iaith Gymraeg | 7 | 4 | 7 | 33 | 3 | 6 | 16 | 62 |
| Cymraeg i Siaradwyr Newydd | 8 | 3 | 4 | 11 | 5 | 9 | 13 | 37 |
| Hyfforddiant Cychwynnol | 5 | 3<br>Jan-25<br>Feb-25<br>PCSO 01/25 | 36 | 24<br>(10 civilian investigators +<br>14 PSCOs) | 2<br>(03/25)<br>(PCSO 02/25) | 24 | 0 | 84 |
| Mewnbwn Safonau | n/a | Ddim yn tracio'r data | | | 5<br>FCC x2<br>Trosglwyddeion<br>CIH | Ddim yn tracio'r data | | |
| Datblygu Cymraeg Sgwrsiol | 3 | 1<br>(Cancelled) | 0 | 0 | 3 | 3 | 11 | 14 |
| Magu Hyder | Dim ar gael yn ystod y cyfnod yma | | | | | | | |
| Gweithdy Cymraeg Ffurfiol | 1 | Dim ar gael yn ystod y cyfnod yma | | | 1 | 3 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 23 | | 47 | 68 | | 42 | 27 | Heb Hyfforddiant Cychwynnol: 116<br>Gyda Hyfforddiant Cychwynnol: 200 |

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 1 – SCHTh

Isod, ceir uchafbwyntiau rhai o'r mentrau allweddol o fewn SCHTh sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Hyfforddiant Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae gan holl Staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynediad i hyfforddiant ar-lein gan y Coleg Plismona. Mae hyn yn cynnwys pynciau megis y ddeddf cydraddoldeb, hyfforddiant ar beidio â chadw'n dawel, aflonyddu rhywiol, rhagfarn ddiarwybod wrth Stopio a Chwilio, deall awtistiaeth a'r cod moeseg. Mae'r modiwlau a'r cyrsiau hyfforddi hyn yn orfodol i bob aelod o Staff.

### Rhannu cyfleoedd recriwtio

Diwrnod Agored Ieuenctid Pencadlys yr Heddlu

Ar 7 ac 8 Ebrill, cynhaliodd y Comisiynydd ei Ddiwrnod Agored Ieuenctid cyntaf ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin, lle gwahoddwyd myfyrwyr chweched dosbarth pob ysgol a choleg yn ardal Dyfed-Powys i ddod i ddysgu mwy am y gwahanol adrannau a'r gwaith sy'n digwydd yn yr Heddlu. Yr adrannau a gymerodd ran yn y digwyddiad hwn oedd Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, y Tîm Troseddau Economaidd, Troseddau Gwledig, Gweithrediadau Arbenigol, a gyflwynodd arddangosiad drôn, a'r Adran Gŵn, ac roedd adrannau eraill yn yr heddlu'n gyfrifol am stondinau ar gyfer ffair yrfa. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr, a chafwyd adborth cadarnhaol gan yr holl ymwelwyr, Staff SCHTh a Staff Heddlu Dyfed-Powys a oedd yn rhan o'r ddau ddiwrnod.

Cymhorthfa gymunedol

Fel rhan o'n Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned ym Mhowys ym mis Medi, cynhaliwyd cymhorthfa gymunedol yn Llandrindod, lle dysgodd y cyhoedd fwy am rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a gwaith y swyddfa, gan gynnwys ein cynlluniau gwirfoddoli, fforwm ymgysylltu â dioddefwyr, cynllun Llysgennad Ieuenctid, cyllid cymunedol, gwasanaethau a gomisiynwyd, a'r prosesau cwyno.

### Recriwtio teg a thryloyw ar gyfer swydd Prif Gwnstabl

Yn ystod mis Awst a mis Medi, cynhaliodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gyda chefnogaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y broses ffurfiol i recriwtio Prif Gwnstabl newydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Dechreuodd y broses recriwtio ar 25 Gorffennaf, gyda hysbyseb yn cael ei gyhoeddi ar-lein a'i rannu'n fewnol ymhlith Staff, ac yn allanol ar draws rhwydweithiau plismona a rhwydweithiau partner. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ac fe'i uwchlwythwyd i'r wefan, a hyrwyddwyd y cyfle trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau partneriaid a rhwydweithiau proffesiynol.

Denodd y broses sylw pum ymgeisydd, sy'n adlewyrchu'r diddordeb cenedlaethol cryf yn y rôl. Lluniwyd rhestr fer ar 8 Medi, ac yna cynhaliwyd cyfweliadau ffurfiol ar 22 a 23 Medi.

Tîm cyfathrebu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu oedd yn gyfrifol am arwain yr holl weithgarwch cyfathrebu mewnol ac allanol gydol y broses, gan sicrhau tryloywder ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ym mhob cam.

Yn dilyn y cyfweliadau, cyhoeddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn ar 23 Medi mai Ifan Charles oedd yr ymgeisydd dewisol. Rhoddodd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ystyriaeth i'r penodiad yn ystod gwrandawiad cadarnhau ar 7 Hydref. Yn dilyn y gymeradwyaeth honno, penodwyd Ifan Charles yn Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn ffurfiol.

## Amcan 2

Mynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil o fewn Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'u dileu drwy weithredu polisïau ac arferion sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hil.

Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?

- Cynnal adolygiadau annibynnol rheolaidd o brosesau recriwtio a dyrchafu i sicrhau eu bod yn deg ac nad ydynt yn rhoi unigolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol o dan anfantais anghymesur;
- Defnyddio ein Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i gynnal asesiad annibynnol o gynlluniau cydraddoldeb ar sail hil a darparu argymhellion ar gyfer gwella;
- Mae sesiynau ymwybyddiaeth hil gorfodol wedi cael eu cyflwyno ledled yr Heddlu ers hynny;
- Hwyluso digwyddiadau ymgysylltu rheolaidd â'r gymuned i ddeall sut maent yn teimlo ac i ddarparu gwybodaeth.

Sut yr ydym ni'n monitro?

| Ffocws | Y diweddaraf |
|---|---|
| Adolygu cofnodion Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym yn ein cyfarfodydd Grŵp Ymgynghorol Annibynnol chwarterol, adolygiadau hapsamplu gan Banel Sicrhau Ansawdd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phanel Craffu y Ddalfa | Ers mis Mehefin 2025, mae Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa pob panel yn gwerthuso'r defnydd o rym yn y ddalfa bob deufis. O edrych ar yr adroddiadau a chynnal ymholiadau pellach, canfuwyd nad yw defnydd o rym yn cael ei gynnwys mor aml ag y gellid tybio. Yn yr adroddiad diweddaraf ar unigolion a gedwir yn y ddalfa o gefndir ethnig leiafrifol (Chwefror 2026) cadarnhawyd, yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa, na chafodd defnydd o rym ei nodi ar unrhyw un o'r 19 cofnod a adolygwyd. Gallai hyn awgrymu bod risg eu bod yn tan-adrodd, neu fod y gallu i ddad-ddwysáu a chyfathrebu yn y ddalfa yn eithaf cryf ymhlith Staff y ddalfa. O gynnal yr adroddiad blynyddol, roedd 71% o gofnodion yn nodi na chafodd grym ei ddefnyddio yn y ddalfa. Pan ddefnyddiwyd grym, ni chofnodwyd unrhyw anafiadau i unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa.<br><br>Yn ystod eu cyfarfod ym mis Mai 2025, bu'r Panel Sicrhau Ansawdd yn ystyried defnydd o rym, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddigwyddiadau yn ymwneud â phlant, menywod ac unigolion Du neu o gefndir ethnig leiafrifol. Wrth ystyried y saith digwyddiad, ni chodwyd unrhyw bryderon yn ymwneud â chydraddoldeb nac amrywiaeth. |

| | |
|---|---|
| Monitro prosesau recriwtio a dyrchafu | Rydym wedi parhau i hyrwyddo rolau arbenigol i gynyddu cynrychiolaeth ar draws adrannau/rhengoedd heb gynrychiolaeth ddigonol, a chymorth gweithredu cadarnhaol ymhlith yr ymgeiswyr. Rydym wedi gwneud hyn drwy gynnal<br>sesiwn ymwybyddiaeth arfau saethu ym mis Medi 2025 ym Mhencadlys yr Heddlu. Cysylltwyd hefyd ag ymgeiswyr a oedd wedi gwneud cais am y rôl yn flaenorol ac a oedd yn gymwys ar gyfer gweithredu cadarnhaol i'w hysbysu o'r digwyddiad. Anfonwyd arolwg hefyd ar 'Swyddogion benywaidd yr uned arfau saethu: Arolwg Profiad a Chanfyddiad', yn gwahodd Swyddogion benywaidd i gymryd rhan mewn arolwg dienw. Ei ddiben oedd deall canfyddiadau o'r uned arfau saethu yn well, lefel y diddordeb mewn gwneud cais, a beth allai annog unigolion i ymgeisio neu i beidio ag ymgeisio.<br><br>Rydym wedi parhau i ddarparu cyfraniadau gweithredu cadarnhaol at y rhaglenni hyfforddi arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr yn cefnogi eu timau'n effeithiol.<br><br>Mynychwyd cyfarfodydd gweithredu cadarnhaol Cymru gyfan i archwilio ffyrdd o gydweithio a rhannu arferion gorau o bosibl.<br><br>Er bod rolau allanol yn cynnwys proses ar gyfer gofyn am gymorth gweithredu cadarnhaol, nid oedd prosesau recriwtio/datblygu mewnol bob amser yn cynnig yr wybodaeth hon, fel y canfuwyd mewn adolygiad bwrdd gwaith. Mae'r tîm recriwtio bellach yn sicrhau bod y cynnig hwn ar gael ar bob hysbyseb rolau mewnol (yn ogystal â rolau allanol).<br><br>Mae gwybodaeth am gamau cadarnhaol wedi'i chynnwys yn y taflenni recriwtio a fydd yn cael eu dosbarthu i dimau plismona bro i'w dosbarthu o fewn eu cymunedau.<br><br>Rhaglen PALS (setiau dysgu gweithredol proffesiynol) - yn cydweithio â Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Gogledd |

| | |
|---|---|
| | Cymru, i ariannu a chyflwyno'r rhaglen PALS i Staff a Swyddogion sy'n dod o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Mae un ymgeisydd i fod i ddechrau'r rhaglen ym mis Ebrill 2026; mae mentor wedi'i ddyrannu ar ei gyfer o'n Heddlu ni i sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi gydol y rhaglen.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau ymgyfarwyddo i ymgeiswyr am swyddi Swyddogion Heddlu cyn proses y Ganolfan Asesu Ar-lein i ddarparu cymorth/cyfarwyddyd. Ar 12 ac 13 Chwefror 2026, anfonwyd gwahoddiad i 14 o ymgeiswyr a oedd wedi holi am weithredu cadarnhaol, mynychodd pump ohonynt y sesiynau.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau ymgyfarwyddo i ymgeiswyr am swyddi Swyddogion Heddlu cyn y cyfweliadau ym mis Ebrill 2025 a mis Chwefror 2026.<br><br>Mae cynllun ar y gweill i gynnal gweithdai Arolygwyr ar gyfer Rhingylliaid sy'n gymwys i sefyll arholiad neu fwrdd arolygu. Dyma'r gweithdy cyntaf i'r Heddlu ei gynnal sy'n cynnig cefnogaeth i'n gweithwyr sy'n ystyried datblygu eu gyrfa ymhellach. Bydd y gweithdai'n cynnwys mewnbwn gan Dysgu a Datblygu, yr adran recriwtio ac Arolygydd newydd ei ddyrchafu a fydd yn rhannu ei brofiad o'r broses. |

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 2 – Heddlu Dyfed-Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiwylliannau sy'n ymwneud â hil

Dechreuodd Heddlu Dyfed-Powys ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiwylliannau sy'n ymwneud â hil gorfodol i bob swyddog a Staff ym mis Ionawr 2025. Sefydliad allanol (No Boundaries LTD) sy'n gyfrifol am ddarparu'r hyfforddiant. Mae 65% o'r gweithlu cyfan wedi ymgymryd â'r cwrs (ym mis Ebrill 2026), gan gynnwys oddeutu 730 o Swyddogion a dros 800 o Staff yr Heddlu.

Mae'r hyfforddiant yn cynnwys adrannau ar hiliaeth strwythurol a chymdeithasol, braint pobl wyn, y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a'r effaith ar gymdeithas/y system gyfiawnder, gweithio ochr yn ochr â phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol, trawma hiliol a stereoteipiau hiliol, a Stopio a Chwilio. Caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno gan unigolion sydd â phrofiad bywyd, ac mae'n cyd-fynd â'r meincnodau fel y'u nodir yn nogfen fframweithiau Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a'r amcanion allweddol a nodir ym Matrics Aeddfedrwydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu.

Yn dilyn pob sesiwn, anogir y mynychwyr i lenwi arolwg ar ôl y cwrs. Mae'r adborth yn cynnwys y canlynol;

- Nododd oddeutu 94% o'r mynychwyr bod eu profiad cyffredinol o'r hyfforddiant yn "Dda" neu'n "Rhagorol".
- Nododd oddeutu 94% o'r mynychwyr bod eu dealltwriaeth o hiliaeth a'i effaith yn dilyn y sesiwn yn "Dda" neu'n "Rhagorol."
- Byddai 90% o'r mynychwyr yn argymell yr hyfforddiant hwn i eraill.

Mae cyfranogwyr hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith eu bod yn gwerthfawrogi clywed profiadau bywyd a straeon personol yr hyfforddwyr, yn ogystal â natur ryngweithiol y sesiwn. Mae'r gwaith grŵp a thrafodaethau agored yn annog cyfranogwyr i feddwl yn feirniadol am hiliaeth, ei effaith a'r ateb ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth/gwahaniaethu strwythurol a chymdeithasol.

Yn ogystal â hyn, ym mis Medi 2025, cyflwynodd Heddlu Dyfed-Powys arolwg chwe mis ar ôl y cwrs ar gyfer Staff sydd wedi mynychu'r hyfforddiant. Nod yr arolwg dilynol hwn yw asesu effaith hirdymor y sesiynau ac i archwilio sut mae cyfranogwyr yn parhau i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'r ffordd y maent yn rhyngweithio a gwneud penderfyniadau dyddiol. Yn ogystal â hyn, lansiodd Heddlu Dyfed-Powys becyn adnoddau cynhwysfawr i gyd-fynd â'r sesiynau hyfforddi. Mae'r pecyn adnoddau rhyngweithiol hwn yn cynnwys polisi'r Heddlu, cynlluniau cenedlaethol a detholiad wedi'i guradu o lyfrau, podlediadau, fideos a ffilmiau/rhaglenni dogfen fel y gall unigolion archwilio themâu allweddol ymhellach.

## Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yw'r ymdrech gydlynol fwyaf erioed ar draws pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr i wella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona ymhlith cymunedau Du. Mae plismona yn benderfynol o ddod yn sefydliad gwrth-hiliol sy'n dileu rhagfarn a gwahaniaethu o'i rengoedd yn weithredol.

## Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn paratoi diweddariadau chwarterol ar gyfer y tîm Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol (Cymru Gyfan), i gefnogi'r gwaith o fonitro ac olrhain cynnydd yn genedlaethol. Rhannodd Heddlu Dyfed-Powys fideos Ymgyrch Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru trwy ein llwyfannau allanol gydol mis Tachwedd 2025 gan gofnodi cyrhaeddiad y fideos hyn.

## Gweithgor Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu/ Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Ym mis Hydref 2022, sefydlwyd ein Gweithgor Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu/Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Bellach yn 2026, y Dirprwy Brif Gwnstabl yw'r Prif Swyddog Arweiniol, gyda'r Prif Uwch-Arolygydd Dros Dro yn gweithredu fel arweinydd yr Heddlu a chadeirydd ein grŵp gweithredu mewnol. Mae'r grŵp yn cynnwys unigolion allweddol ar draws yr Heddlu, arweinwyr llif gwaith fesul llif gwaith Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu/Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ac aelod o'n Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Ymunodd Cydlynydd yr Heddlu â'r tîm ym mis Mehefin 2025, i gydlynu'r holl ymdrechion sy'n gysylltiedig â hil ar draws yr Heddlu.

## Mis Hanes Pobl Ddu a Chynhadledd Cymdeithas Heddlu Croenddu

Yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu, clywsom gan Gadeirydd ein Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig a ysgrifennodd flog am ei brofiad yng Nghynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Heddlu Croenddu, a gynhaliwyd gan Heddlu Dinas Llundain. Thema'r gynhadledd eleni oedd Atebolrwydd yr Heddlu, Meithrin Ymddiriedaeth a Sicrhau Tegwch a Chyfiawnder i bawb.

Yn 2025, daeth ein Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig mewnol ar gyfer Staff i'r brig yng Ngwobrau'r Heddlu am; "Weithio Tuag at Amrywiaeth yn y Gweithle". Roedd yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith parhaus y mae'r rhwydwaith yn ei wneud i hyrwyddo amrywiaeth ar draws y sefydliad.

**Ton 3 Arolwg Ein Gweithlu Du**

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod pwysigrwydd yr arolwg cenedlaethol 'Ein Gweithlu Du' yn archwilio profiadau bywyd Swyddogion a Staff Heddlu Du ac o dreftadaeth Du yn yr Heddlu. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cwblhau pob cylch o'r arolwg yn llwyddiannus, ac yn Nhon 3, wedi cyflawni cyfradd ymateb o 67%; ein cyfradd uchaf hyd yma. Mae'n bwysig nodi mai'r gyfradd ymateb gyfartalog yw 35%. Trafodwyd canfyddiadau'r Arolwg yng ngweithgor mewnol Heddlu Dyfed-Powys ar Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu/Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ac fe'u harchwiliwyd gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd ein Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Staff. Roedd yn galonogol nad oedd adborth y rhwydwaith yn awgrymu bod ymddygiadau o'r fath yn bryderon allweddol a adroddwyd amdanynt gan ei haelodau. Fodd bynnag, heb y gallu i ddadansoddi canfyddiadau cenedlaethol yn ôl ardal Heddlu, ni allwn fod yn sicr nad yw pryderon o'r fath yn bodoli yn Heddlu Dyfed-Powys. Serch hynny, rydym yn parhau i fynd i'r afael â materion a amlygwyd yn yr arolwg megis cynyddu ymwybyddiaeth o'n Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Staff a mentrau Gweithredu Cadarnhaol perthnasol.

**Cyfathrebu mewnol – Informer**

Roedd Rhifyn Nadolig 2025 o'n cylchgrawn mewnol, yr Informer, yn cynnwys crynodeb tudalen o hyd o waith sy'n gysylltiedig â hil ar draws yr Heddlu. Roedd y crynodeb yn cyfeirio at y cynllun cenedlaethol (Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru a Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu), yn tynnu sylw at ein Hyfforddiant mewnol ar Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau sy'n ymwneud â hil ac yn cynnwys ychydig o adborth cadarnhaol ac ystadegau o'r sesiynau. Yn ogystal â hyn, mae'r crynodeb yn cynnig gwybodaeth a manylion am sut i gysylltu â'n Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig mewnol ar gyfer Staff.

**Cynllun Peilot Datrysiadau Troseddau Casineb y Tu Allan i'r Llys**

Mae Heddlu Dyfed-Powys, ynghyd â 17 o Heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr, wedi cael y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun peilot cenedlaethol ar gyfer datrysiadau troseddau casineb y tu allan i'r llys, sy'n cael ei oruchwylio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Bydd yr Heddluoedd yn cynnwys tri Heddluoedd eraill Cymru ynghyd â phedwar ar ddeg o Heddluoedd Lloegr.

Ym mis Rhagfyr 2025, cynhaliwyd cyfarfod gyda phob parti perthnasol o Heddluoedd Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru i werthuso'r posibilrwydd o sefydlu cydweithrediad Cymru gyfan i gyflawni'r broses, a fyddai'n cynnwys cyllid posibl, darparwyr dargyfeirio a gofynion strategol/cyfreithiol.

## Uchafbwyntiau Allweddol Amcan 2 – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Gwirio am Anghymesuredd mewn Data Cyfiawnder Ieuenctid

Ym mis Mehefin, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu weithgaredd i adolygu data cyfiawnder ieuenctid rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 drwy ddefnyddio Offeryn Anghymesuredd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ni chanfuwyd unrhyw or-gynrychiolaeth o fewn y data a gedwir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar y boblogaeth o blant sy'n troseddu yn ardal Dyfed-Powys. Croesgyfeiriodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hyn drwy fynychu byrddau rheoli cyfiawnder ieuenctid lleol a pharhaodd i eiriol dros gydraddoldeb hiliol a'i fonitro.

### Dal Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif

Y Bwrdd Plismona yw'r fforwm lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys. Mae'r Bwrdd Plismona yn cyfarfod yn fisol ac yn rhoi cyfle i graffu a chael trosolwg amserol o fusnes yr Heddlu. Yn ystod y cyfnod adrodd, gofynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu y cwestiynau canlynol i'r Prif Gwnstabl:

- A allai'r Prif Gwnstabl amlinellu pa gynnydd mesuradwy y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i wneud hyd yn hyn yn erbyn yr amcanion a'r ymrwymiadau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru.
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella amrywiaeth o fewn y gweithlu, yn enwedig o ran recriwtio, cadw Staff a chynnydd gyrfa Swyddogion a Staff sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? A ydych chi'n fodlon bod amrywiaeth bresennol y gweithlu yn gynrychioliadol o'n poblogaeth yn Nyfed-Powys?
- A yw'r Heddlu wedi wynebu unrhyw heriau neu rwystrau penodol wrth ddatblygu gwaith sy'n ymwneud â Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, a sut yr ydych chi'n mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud?
- Yn dilyn dyfarniad diweddar gan yr Uchel Lys ynghylch Swyddogion Heddlu yn mynychu digwyddiadau Pride. Sut mae'r Prif Gwnstabl yn cefnogi cymunedau LHDT+ mewnol ac allanol?

Mae'r atebion cynhwysfawr a roddodd yr Heddlu, ynghyd â'n trafodaethau yn y cyfarfod, i'w gweld ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-chraffu/llywodraethu/bwrdd-plismona/

### Gwasanaethau i ddioddefwyr

Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Gomisiynu ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae nifer o brosesau ar waith sy'n monitro'r gwerth a'r canlyniadau a gyflawnir gan wasanaethau a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. I ategu hyn, cwblheir archwiliad bwrdd gwaith bob blwyddyn ar gyfer pob darparwr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys nifer o ffactorau adolygu megis amseroldeb a chynnwys adroddiadau ar berfformiad a chyllid, darpariaeth y Gymraeg, gweithdrefnau cwyno, gofynion fetio, ac ati. Mae'r archwiliad hwn hefyd yn cynnwys asesiad o gydraddoldeb blynyddol a gynhelir gan bob darparwr, sy'n darparu data proffil demograffig, gwaith allgymorth a gyflawnwyd ac unrhyw gamau gweithredu y mae eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodwyd o ran mynediad i wasanaethau neu ddarpariaeth gwasanaethau.

Gwneir craffu pellach ar brosesau a data cydraddoldeb mewn archwiliadau mwy manwl a gynhelir ar gyfer gwasanaethau lle mae contractau ar fin dod i ben; mae hyn yn helpu i lywio cynlluniau ailgomisiynu.

### Monitro amcanion perfformiad

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn amcanion Cynllun yr Heddlu a Throseddu, yn bennaf drwy gyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad Strategol. Mae Fframwaith Perfformiad cynhwysfawr yn sail i'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys metrigau ar anghymesuredd a chynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.

## Amcan 3

Cryfhau ein cydberthnasau â'n cymunedau drwy blismona cymunedol rhagweithiol a gweithgareddau ymgysylltu.

Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?

- Datblygu a monitro strategaethau ymgysylltu ystyrlon â'r gymuned;
- Sefydlu mecanweithiau adborth tryloyw;
- Defnyddio ein Swyddogion ymgysylltu yn rhagweithiol ac yn effeithiol.

Sut yr ydym ni'n monitro?

| Ffocws | Y diweddaraf |
|---|---|
| Cofnodi'r holl adborth o ddigwyddiadau cymunedol a sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei bwydo'n ôl i grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â nhw | Mae gwasanaeth newydd i ymgysylltu â'r gymuned wedi'i lansio i gefnogi'r gweithgarwch hwn. System negeseuon e-bost ryngweithiol yw Cyswllt Dyfed-Powys (Ymgyrch Connect). Mae 'Ymgyrch Connect' yn ei gwneud yn ofynnol i Gwnstabliaid Heddlu a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu "guro ar bob drws", er mwyn annog unigolion i ymuno ac i hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned. Lansiwyd Ymgyrch Connect ym mis Mawrth 2026 ac yn ystod y mis cyntaf, ymwelwyd â dros 5000 o gyfeiriadau. |
| Monitro newidiadau o ran amrywiaeth yn ein cynlluniau gwirfoddoli | Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu i gryfhau'r berthynas â chymunedau amrywiol ac ethnig leiafrifol, gan ganolbwyntio ar ymddiriedaeth, cynhwysiant a deialog ystyrlon.<br><br>Roedd yr ymgysylltu a wnaed â Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli yn cynnwys cyfarfod amlasiantaeth ym mis Awst 2025 i drafod pryderon cymunedol yn agored, yn enwedig y lefelau isel o ymddiriedaeth mewn plismona a thensiynau cynyddol yn dilyn digwyddiadau yn Llanelli. Mynegodd y rhwydwaith barodrwydd cryf i gydweithio â phartneriaid plismona. Daethpwyd i gytundeb ar bwysigrwydd gwrando ar anghenion a nodir gan y gymuned a datblygu dulliau sydd â digon o adnoddau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn hytrach na digwyddiadau untro, er mwyn cefnogi'r gwaith o feithrin cydberthnasau yn yr hirdymor. |

| | |
|---|---|
| | Ymgysylltwyd ymhellach drwy gynnal ymweliad â'r Ganolfan ar gyfer Entrepreneuriaeth Affricanaidd a thrafodaethau â sefydliadau sy'n cefnogi ceiswyr lloches a chymunedau ethnig leiafrifol, gan gynnwys Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru. Cefnogodd yr ymweliadau hyn y gwaith o ddysgu am brofiadau cymunedol yn Llanelli, archwilio cyfleoedd i wella cynrychiolaeth mewn cynlluniau gwirfoddoli, a chryfhau cysylltiadau â sefydliadau cymunedol dibynadwy.<br><br>Cefnogodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2025 hefyd, gan gynnal gweminar ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar Droseddau Casineb yn erbyn Anabledd. Daeth y sesiwn â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Heddlu Dyfed-Powys a Chymorth i Ddioddefwyr ynghyd i godi ymwybyddiaeth, mynd i'r afael â rhwystrau i adrodd, ac amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Comisiynydd i ymgysylltu mewn modd cynhwysol a hygyrch. |

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 3 – Heddlu Dyfed-Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Ymgyrch Connect

Isod ceir crynodeb o'r rhyngweithio a wnaed gan Swyddogion ar batrôl â grwpiau nas clywir yn aml ar gyfer Blwyddyn 2 – Ymgyrch Ivydene (Ebrill 25-Mawrth 26)

| Uned Reoli Sylfaenol (URS) | Pobl ifanc | Bregus | Lleiafrifoedd ethnig | Arall |
|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 417 | 104 | 73 | 49 |
| Ceredigion | 72 | 53 | 26 | 27 |
| Sir Benfro | 285 | 120 | 36 | 69 |
| Powys | 89 | 84 | 44 | 34 |
| Cyfanswm (yr Heddlu) | 863 | 361 | 179 | 179 |

### Dangosfyrddau data

Mae dangosfyrddau data pwerau'r Heddlu yn parhau i fod yn effeithiol (gan gynnwys dangosfyrddau sicrhau ansawdd), a darperir diweddariadau rheolaidd i'r gweithgor gwrth-hiliaeth mewn perthynas â data. Mae hidlwyr ar gael ar draws llawer o gynhyrchion y dangosfwrdd i edrych ar ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig eraill. Cyhoeddwyd dadansoddiad o Stopio a Chwilio ar gyfer chwarter ariannol 3 20024/25. Y bwriad yw cyhoeddi'r dadansoddiad hwn bob chwarter, ynghyd ag adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn dechrau dangos i'r gymuned bod yr Heddlu yn dryloyw a bydd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd olrhain tueddiadau mewn unrhyw ddata.

Rydym hefyd bellach wedi cyhoeddi dangosfwrdd Defnydd o Rym ac adroddiadau chwarterol cysylltiedig a fydd yn cael eu cyhoeddi (Gan fod y dangosfwrdd Defnydd o Rym yn cael ei gyhoeddi yng nghanol y chwarter, fe wnaethom aros tan ddiwedd mis Mawrth. Rydym hefyd yn y broses o gwblhau trosolwg blynyddol o'r Defnydd o Rym, a fydd yn cael ei gyhoeddi, yna bydd adroddiad chwarterol yn cael ei drefnu).

### Mosg lleol

Mae'r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol a'r Swyddog Denu Talent wedi cyfarfod â mosg lleol i dynnu sylw at y gwahanol gyfleoedd recriwtio y gall Heddlu Dyfed-Powys eu cynnig. Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o drefnu digwyddiad i gyflwyno'r gwahanol rolau sydd ar gael yn yr Heddlu i'n cymunedau, a'n nod yw cynnal digwyddiadau rheolaidd â'r cymunedau fel rhan o'r Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol.

**Ymgyrch Makesafe**

Menter genedlaethol yw Ymgyrch Makesafe sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y cyhoedd cyffredinol a phobl sy'n gweithio yn y sectorau busnes yn ymwybodol o arwyddion cynnar camfanteisio ar blant ac yna'n gwybod sut i adrodd am bryderon wrth yr heddlu.

Mae pwyntiau cyswllt sengl wedi'u penodi ym mhob un o'r pedair adran a thaflenni ymgyrch wedi'u dosbarthu i westai, llety gwely a brecwast, parciau carafanau, cyfleusterau hamdden a safleoedd trwyddedig. Caiff tudalen we ymgyrchoedd yr Heddlu ei diweddaru'n rheolaidd, gyda chyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal â phwyntiau cyswllt unigol adrannau.

Cynhaliwyd cynhadledd gorchmynion diogelu Cymru gyfan o dan arweiniad Heddlu Dyfed-Powys yn Llanelli ym mis Tachwedd 2025. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ac ymgysylltwyd ag ardaloedd eraill.

Ym mis Medi 2025, lansiwyd Ymgyrch Lester i dynnu sylw at Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Sbeicio Diodydd. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi creu cynllun sbarduno sy'n cynnwys map proses newydd i ysgogi adolygiad ac ymateb cynnar gan dditectifs, pwyntiau cyswllt ym mhob uned reoli sylfaenol i sicrhau y caiff nwyddau traul fforensig (megis citiau tystiolaeth gynnar) eu defnyddio a'u cyflenwi ac y ceir gwell ymateb.

Heddlu Dyfed-Powys oedd yn gyfrifol am arwain y gefnogaeth ranbarthol i'r ymgyrch **'Ein Nos Ni'**, sy'n cefnogi menywod sydd allan gyda'r nos yn rhedeg neu'n cadw'n heini. Mae dwy o bob tair menyw yn rhoi'r gorau i fynd allan gyda'r nos yn ôl eu trefn arferol yn ystod misoedd y gaeaf gan nad ydynt yn teimlo'n ddiogel. Darperir cefnogaeth drwy ymgysylltu â'r clybiau rhedeg a darparu cyngor ac adnoddau ar-lein ar ddiogelwch. Y nod hefyd yw tynnu sylw dynion a chynghreiriaid at unrhyw ymddygiad amhriodol y maent yn dyst iddo a ystyrir yn aflonyddu, neu sy'n achosi i fenywod newid eu hymddygiad.

**Ymgyrch Stop it Now**

Gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025, arweiniodd Heddlu Dyfed-Powys ymgyrch â'r elusen amddiffyn plant DU gyfan, Sefydliad Lucy Faithfull, i atal cam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Yn 2024, ceisiodd 11,353 o bobl yng Nghymru gymorth gan llinell gymorth ymgyrch Stop It Now sefydliad Lucy Faithfull neu'r gwasanaethau hunangymorth ar-lein, yn pryderu am eu hymddygiad rhywiol eu hunain tuag at blant ar-lein neu ymddygiad rhywun arall. Roedd y rhain yn cynnwys 476 yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae gwylio delweddau rhywiol o unigolion dan 18 oed a chael sgyrsiau rhywiol ag unigolion dan 16 oed yn anghyfreithlon, ac yn achosi niwed difrifol i blant, ac mae'r canlyniadau'n ddifrifol, gan gynnwys y posibilrwydd o gael eich arestio, eich carcharu a cholli eich swydd. Ond mae cymorth cyfrinachol ar gael i stopio drwy'r llinell gymorth ddienw Stop It Now. Fe wnaethom drefnu cyfweliad radio a chael sylw sylweddol yn y cyfryngau i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r ymgyrch.

## Uchafbwyntiau Allweddol Amcan 3 – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Isod, ceir uchafbwyntiau rhai o'r mentrau allweddol o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Cyfathrebu allanol

Yn ystod 2025-26 rydym wedi parhau i gefnogi gwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar ei Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth. Mae cynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys ar Weithgor Cyfathrebu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, ac yn 2025-26, mae'r gweithgor wedi parhau i weithio gyda chwmni cyfryngau i ddatblygu adnoddau i bartneriaid cyfiawnder troseddol eu defnyddio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill, er mwyn hyrwyddo Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol. Adnoddau dwyieithog yw'r rhain, ac maent yn cynnwys graffigwaith sy'n tynnu sylw at ein gweledigaeth a'n hymrwymiadau, a oedd i gyd wedi'u hamserlennu yn ein gweithgarwch cyfathrebu yn ystod 2025-26.

### Hyder y Gymuned mewn Plismona Lleol

Ymgynghoriad ar ganfyddiad y cyhoedd

Yn ystod 2025, lansiwyd arolwg Ymgynghoriad ar Ganfyddiad y Cyhoedd gyda'r nod o gasglu barn y cyhoedd ar blismona yn ardal Dyfed-Powys. Lansiwyd yr arolwg cyntaf yn ystod Sioe Frenhinol Cymru ac mae wedi parhau i redeg gydol y flwyddyn. Ar ôl digwyddiadau'r haf, mae gwaith hyrwyddo misol wedi parhau ar draws yr holl sianeli cyfryngau cymdeithasol. Caiff taflenni â chod QR sy'n cysylltu i'r arolwg hefyd eu defnyddio mewn digwyddiadau, megis mewn ffeiriau gwirfoddoli.

### Dadansoddi Amrywiaeth yr Ymatebion i Ymgynghoriad 2025-26

Fel rhan o'n hymgynghoriadau cyhoeddus, rydym yn casglu data ynghylch amrywiaeth gan ein holl ymatebwyr gyda'r nod o ddeall pa grwpiau sy'n ymgysylltu â ni, ac i nodi unrhyw grwpiau nad ydym yn ymgysylltu â hwy. Er ein bod yn parhau i ymgysylltu ar draws ystod eang o gymunedau ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys, mae data amrywiaeth yn dangos lefelau is o adborth gan rai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys cymunedau ethnig leiafrifol a chymunedau LHDTC+.

## Amcan 4

Hyrwyddo diwylliant sy'n gynhwysol a chefnogol, gan gynnwys y rheini â nodweddion a ddiogelir, ac sy'n gwrthwynebu ymddygiad hiliol, casineb at fenywod neu ymddygiad homoffobig.

Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?

- Hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol;
- Adolygu a chyhoeddi polisïau sy'n ymwneud â diwylliant;
- Hyfforddiant gorfodol ar sgwrsio heriol i bob goruchwyliwr;
- Hyrwyddo mecanweithiau adrodd mewnol;
- Hwyluso cylchoedd gwrando â'r gweithlu, rhwydweithiau cefnogi Staff, hyrwyddwyr

Sut yr ydym ni'n monitro?

| Ffocws | Y Diweddaraf |
|---|---|
| Monitro presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth gorfodol a'u cynnwys mewn proffiliau datblygu ac asesu | Mae gan bob Swyddog ac aelod o Staff o fewn Heddlu Dyfed-Powys amcan o 'adfer hyder y cyhoedd sy'n deillio o faterion cenedlaethol a Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu'.<br><br>Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth gorfodol sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei fonitro ac anfonir neges at yr unigolion sydd heb dderbyn hyfforddiant penodol. |
| Cofnodi'r holl adborth a ddaw i law yn dilyn digwyddiadau cylch gwrando a sicrhau y caiff ei rannu ag uwch arweinwyr | Mae digwyddiadau "Ymgysylltu a Disgwyliad" wedi parhau yn fewnol – cyfle i atgoffa Swyddogion a Staff am sut i fod yn gynhwysol ac yn gefnogol, gan gynnwys mewn perthynas â phobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r digwyddiadau hefyd yn cynnwys disgwyliadau o ran gwrthsefyll ymddygiad hiliol, casineb at fenywod neu ymddygiad homoffobig |
| Cyhoeddi arolwg Staff mewnol, a bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif am eu hymateb i ganfyddiadau'r arolwg | Cyflwynwyd canlyniadau arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2026. Cafodd y canlyniadau eu rhoi mewn cynllun gweithredu, a rhannwyd crynodeb ymhlith Staff ar ffurf Sioeau Teithiol y Prif Swyddog. Darperir diweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona. |

| | |
|---|---|
| | Yn ogystal â hyn, ailsefydlwyd y Pwyllgor Moeseg ac fe'i newidiwyd yn Banel Diwylliant a Moeseg er mwyn rhoi cyngor a chefnogaeth annibynnol i'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch unrhyw faterion moesegol neu ddiwylliannol sy'n deillio o faterion strategol a gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. |
| Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn monitro'r adborth o'r broses adolygu cwynion i nodi pryderon ynghylch diwylliant | Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i gasglu data am ethnigrwydd drwy'r adolygiadau cwynion, er nad yw'n orfodol i achwynwyr ddarparu'r wybodaeth. Mae fformat yr adroddiadau chwarterol wedi'i ddiwygio ac nid ydynt bellach yn defnyddio data Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, er y bydd colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu i adrodd ar nifer yr adolygiadau sy'n dod i law gan unigolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Yna bydd hyn yn cael ei adrodd i Fwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol ac yn cael ei gyhoeddi.<br><br>Mae'r traciwr adolygiadau o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cofnodi themâu cwynion, a chaiff unrhyw bryderon eu hychwanegu at y traciwr sicrwydd fel y gellir ei fonitro ymhellach. |

## Uchafbwyntiau Allweddol Amcan 4 – Heddlu Dyfed-Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Proffil Datblygu ac Asesu

Roedd gan bob swyddog ac aelod o Staff amcan datblygiad proffesiynol yn ystod y flwyddyn proffil datblygu ac asesu diwethaf (2024/25) yn ymwneud â'r cynlluniau gweithredu hiliaeth a diwylliant y gweithle. Mae Swyddogion yn ddarostyngedig i safon datblygiad cyflog, sy'n gysylltiedig â'r proffil datblygu ac asesu.

### Rhaglen Arweinyddiaeth

Ar gyrsiau arweinyddiaeth, rydym yn trafod creu gweithle sy'n ddiogel yn seicolegol ac sy'n gynhwysol, a phwysigrwydd hynny. Rydym yn siarad am groestoriadedd ac yn cyffwrdd ar niwroamrywiaeth, gan dynnu sylw at ystyriaethau ac anawsterau/heriau y gallai unigolion sy'n niwroamrywiol eu hwynebu.

Rydym yn trafod sut i fynd i'r afael ag ymddygiad amhroffesiynol a'i herio megis gwahaniaethu, casineb at fenywod, aflonyddu a bwlio a gweithdrefnau adrodd. Cânt hefyd fewnbwn gan ein Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'n Swyddog Gweithredu Cadarnhaol.

Ar bob un o'n cyrsiau arweinyddiaeth, rydym yn dangos i unigolion sut i gael mynediad at VIVUP a'r llyfryn llesiant, sy'n cynnwys mynediad at wasanaeth cwnsela ar-lein ar unwaith yn ogystal â phodlediadau cefnogol a llyfrynnau hunangymorth.

Rydym hefyd yn cyflwyno'r rhaglen Ysbrydoli gan y Coleg Plismona i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n canolbwyntio ar fagu hyder ac ystyried a myfyrio ar eu sgiliau a'u gallu presennol, a chydnabod sut y gellir eu cymhwyso i gyfleoedd gyrfa yn y dyfodol.

### Diwrnod i Deuluoedd

Ail-lansiwyd grŵp rhianta mewnol yr Heddlu i fod yn fwy cynhwysol, a bellach caiff ei adnabod fel 'grŵp teuluoedd' sy'n rhan o Rwydwaith Cymorth Staff Cydraddoldeb Rhywedd. Fel rhan o'r ail-lansiad hwn, cynhaliwyd digwyddiad i deuluoedd yn ein pencadlys, lle gwahoddwyd rhiwni oedd ar absenoldeb mamolaeth/rhieiniol, ynghyd ag unrhyw un â chyfrifoldebau gofalu y tu allan i'r gweithle, yn unol â'n partneriaeth newydd â 'Cyflogwyr i Ofalwyr'.

### Profion Antigen Benodol y Prostad PSA

Mae Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, UNISON, Ffederasiwn yr Heddlu, a Chymdeithas yr Arolygwyr wedi sicrhau cyllid i gaffael pecynnau profi gartref ar gyfer canser y prostad. Mae'r fenter hon yn parhau i gael ei chyflwyno ar draws yr Heddlu – gall Staff a Swyddogion dros 45 oed sydd â phrostad gael profion am ddim, gan ddileu'r rhwystrau i gael profion trwy'r meddyg teulu/GIG yn 50 oed.

**Panel Diwylliant a Moeseg**

Cyflwynwyd y Panel Diwylliant a Moeseg i ddarparu llwyfan i Staff a Swyddogion i godi pryderon/materion y maent yn teimlo sydd "ddim yn deg" neu os ydynt yn teimlo "nad yw rhywbeth yn iawn", i'w trafod gan banel eang o aelodau o bob adran o'r Heddlu ac aelodau annibynnol o'r tu allan i faes plismona. Bydd canlyniadau'r paneli a'r trafodaethau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i adrannau a phrif Swyddogion ynghyd ag unrhyw argymhellion neu benderfyniadau. Diben y grŵp Diwylliant a Moeseg newydd yw ategu adduned diwylliannol y prif gwnstabliaid a darparu lle diogel i'n cydweithwyr siarad am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae gan yr Heddlu bellach arweinwyr diwylliant a moeseg ar draws sawl adran i hyrwyddo trafodaethau am ddiwylliant a moeseg ac annog Staff i deimlo'n hyderus i gyfeirio materion at y panel. Rydym am i ddiwylliant a moeseg ddod yn destun trafod bob dydd yn y gweithle, gan gefnogi'r adduned diwylliannol i'w ymgorffori'n naturiol ym mhob adran, gorsaf a chod.

**Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth 16 – 23 Mawrth 2026**

Mae Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth yn fenter fyd-eang sy'n herio stereoteipiau a chamsyniadau am wahaniaethau niwrolegol. Rydym ni yn Heddlu Dyfed-Powys eisiau darparu mynediad i amrywiol fathau o gefnogaeth ac offer i Staff a Swyddogion. I ddathlu'r wythnos fe wnaethom rannu'r ystod eang o adnoddau a mathau o gymorth sydd ar gael â'r sefydliad megis addasiadau rhesymol, sgrinio ar gyfer dyslecsia, canolfan llesiant, rhwydwaith cefnogi galluoedd Staff a llawer mwy.

## <u>Uchafbwyntiau Allweddol Amcan 4 – SCHTh</u>

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Adolygu ein prosesau sy'n ystyriol o drawma

Rydym wedi bod yn gweithio yn ein swyddfa i geisio deall beth mae ein gweledigaeth a'n hymrwymiad yn ei olygu i ni pan fyddwn yn sôn am fod yn ystyriol o drawma. I ddechrau, cynhaliwyd diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer y swyddfa gyfan i sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth sylfaenol o'r hyn yr oeddem am ei gyflawni drwy ymrwymo i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma. Yna sefydlwyd gweithgor i ystyried sut y gallwn weithredu dull sy'n ystyriol o drawma yn ein gweithgareddau bob dydd gyda'n gilydd, gyda'n partneriaid a gydag aelodau'r cyhoedd. O ganlyniad, nodwyd arweinydd pwrpasol i sicrhau bod y maes gwaith hwn yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer cyflawni yn unol â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Gwnaed nifer o newidiadau yn y swyddfa i weithredu'r camau gweithredu cychwynnol a nodwyd gan y gweithgor, gan gynnwys Datganiad Sefydliadol. Rydym wedi bod yn diweddaru hwn yn ddiweddar i ystyried y naratif cyhoeddus a sut yr ydym am adrodd ein stori i'r cyhoedd a'r partneriaid rydym yn gweithio gyda nhw. Roedd edrych eto ar y datganiad flwyddyn ar ôl iddo gael ei ysgrifennu i weld a oedd ein dealltwriaeth ein hunain o'r hyn yr oedd bod yn ystyriol o drawma yn ei olygu ar gyfer y swyddfa, a sut yr oeddem am adrodd stori'r hyn rydym ni'n ei wneud ar gyfer partneriaid a'r cyhoedd, yn ymarfer defnyddiol iawn.

Yn ogystal â sicrhau bod ein gwasanaethau sy'n ymwneud â'r cyhoedd mor ystyriol â phosibl o drawma, rydym hefyd wedi canolbwyntio ar sut y gallwn fod yn ystyriol o drawma gyda'n gilydd fel cydweithwyr. O ganlyniad, sefydlwyd y cynllun cyfaill Ymarfer Myfyriol yn fewnol i sicrhau bod gan Staff amser penodol i fyfyrio ac i feithrin cydberthnasau ar draws y swyddfa. Mae hyn yn helpu i feithrin a chynnal gwydnwch emosiynol ac yn sicrhau bod y llwyfan gan gydweithwyr i ofyn am gefnogaeth neu gyngor gan eraill.

### Hyrwyddo diwylliant cynhwysol

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau gweithle amrywiol a chynhwysol yn SCHTh, neilltuwyd amcan i bob aelod o Staff yn ei broffil datblygu ac asesu i hyrwyddo'n weithredol diwylliant sy'n gynhwysol ac yn gefnogol i'w gilydd. Roedd yr amcan sefydliadol cyfan hwn yn annog Staff i fyfyrio ar eu harferion, ymgysylltu mewn ymddygiadau cynhwysol, a chyfrannu at greu amgylchedd croesawgar i bawb.

Mae dau aelod o Staff wedi derbyn statws Cynghreiriad Aur gan Rwydwaith Heddlu LHDTC+ Cymru. Dyma'r lefel uchaf o gydnabyddiaeth a roddir i unigolion sy'n cefnogi cynhwysiant LHDTC+ mewn plismona mewn ffordd weithredol a gweladwy. Mae'r wobr aur wedi'i chadw ar gyfer y rhai sy'n mynd yr ail filltir yn gyson i herio gwahaniaethu, hyrwyddo cynhwysiant, ac arwain trwy esiampl ar draws eu sefydliad.

Heddlu • Police
DYFED POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner